# Gwneud y mwyaf o goetiroedd fferm

ar y rhwydwaith arddangos

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

08456 000 813



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales/farmingconnect

# Rhagair



Mae sector coedwigaeth Cymru yn cynnig cyfleoedd gwaith gwerthfawr i gymunedau gwledig, ac mae'r busnesau ffermio sy'n gysylltiedig â'r sector yn rheoli coetiroedd llai, mwy brodorol ac amrywiol yn bennaf. Mae ardaloedd eang o goetir llydanddail a fferm heb eu rheoli yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cynnig cyfle mawr i gynhyrchu mwy o bren y byddai'n bosibl ei ddefnyddio i ymateb i'r galw cynyddol, i gynhyrchu ynni yn bennaf.

Mae Cyswllt Ffermio wedi helpu pob math o fusnesau da byw ar draws Cymru i ymchwilio i ddulliau o reoli coetiroedd presennol, creu coetiroedd a chyfleoedd i ganfod a chyflenwi tanwydd pren. Mae'r buddion yn eang ac yn annog cymryd agwedd hirdymor tuag at reoli tir a blaenoriaethu busnes yn y dyfodol, ac mae cynlluniau rheoli 10 mlynedd a mwy yn nodwedd o'r cymorth hwn.

Mae datblygu dulliau rheoli coetiroedd fel nodwedd fusnes ychwanegol yn golygu mwy nag arallgyfeirio, gall ddod â buddion i'r busnes amaethyddol hefyd. Mae ffermydd wedi ymchwilio i amaethgoedwigaeth, h.y. plannu cnydau amaethyddol a choed ar y cyd, gyda chymorth Cyswllt Ffermio. Bydd cyngor rheoli ymarferol ar gyfer y diwydiant o gymorth i fabwysiadu egwyddorion amaethgoedwigaeth yn fwy eang, gan arwain at fuddion i iechyd a lles anifeiliaid, cynyddu cynhyrchiant amaethyddol a ffrydiau incwm ychwanegol.

Mae rheoli a chreu coetiroedd yn ffyrdd defnyddiol o reoli colli maetholion, perygl llifogydd, a gwella iechyd a lles stoc. Mae gwaith ar nifer o ffermydd ffocws wedi ymchwilio i'r buddion hyn gan gynnig cyngor ar ddulliau rheoli ymarferol ac arfer da i'w rhannu'n fwy eang yn y diwydiant.

Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn helpu ffermwyr a busnesau gwledig eraill i amddiffyn sail asedau coetiroedd rhag problemau clefydau sy'n wynebu coed Cymru. Mae helpu rheolwyr tir i fod yn fwy effro i ledaeniad clefydau, eu galluogi i adnabod arwyddion o glefydau ar goed, a gwybod sut dylid adrodd am achosion o heintiau yn hanfodol.

Mae'r llyfryn hwn yn dangos yr amrywiaeth eang o brosiectau a gafodd eu cynnal dros y tair blynedd diwethaf a'r canlyniadau a ddangoswyd i'r ffermwyr. Maent yn dangos y potensial i ennill incwm o'n coetiroedd yng Nghymru, tra'n eu rheoli'n gynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

I gael y newyddion diweddaraf am brosiectau a threialon ar holl safleoedd rhwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio, ewch i'n gwefan: **www.gov.wales/farmingconnect**

**Dewi Hughes**
Rheolwr Datblygu Technegol, Cyswllt Ffermio
*Gwanwyn 2020*

# Cyswllt Ffermio - eich helpu chi i yrru eich busnes yn ei flaen

Gall busnesau cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau cymorth, canllawiau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio.

Mae nifer o'r gwasanaethau wedi eu hariannu'n llawn, tra bod eraill yn cael eu hariannu hyd at 80%.

Ewch i'n gwefan i weld sut gallwch chi:

- gael budd o gefnogaeth fusnes cymhorthdaledig, sydd wedi ei deilwra at eich anghenion busnes
- meincnodi eich perfformiad a gweithio tuag at gynnydd a thwf
- datblygu eich sgiliau fel rhan o'n rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus /dysgu gydol oes
- cael gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf ym maes technoleg trwy ddatblygiadau yn y diwydiant a'r ymchwil diweddaraf
- rhannu arfer da ac elwa ar wybodaeth ffermwyr eraill, arbenigwyr yn y diwydiant ac ymchwil academaidd
- cael eich ysbrydoli gan syniadau newydd a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon a blaengar o weithio



# Datblygu busnes tanwydd pren




Gall rheoli coetiroedd a phrosesu cynhyrchion pren fod yn ffrydiau incwm amgen gwerthfawr i ffermwyr da byw. Penderfynodd fferm ffocws Garthmyn Isaf, ger Llanrwst, arallgyfeirio o ffermio defaid traddodiadol gan adeiladu ar ei gweithgareddau contractio a llogi peiriannau amaethyddol i ddatblygu busnes yn seiliedig ar brosesu a chyflenwi pren. Bellach mae'r busnes prosesu pren yn werth dros £2 filiwn, ac mae'n defnyddio coed o goetiroedd lleol i gynhyrchu a chyflenwi tanwydd pren i wahanol gwsmeriaid.

Gall rheoli'r cyflenwad o ddeunydd crai, a datblygu sylfaen o gwsmeriaid ar gyfer pob math o gynnyrch tanwydd pren sy'n ychwanegu gwerth, fod yn ffordd o arallgyfeirio'n gynaliadwy, ochr yn ochr â rhedeg fferm. Gall busnesau fferm fod yn addas iawn ar gyfer y model hwn, diolch i'r seilwaith ar y fferm, yr arbenigedd peirianyddol, a'r wybodaeth am ddulliau rheoli tir sydd eisoes ar gael mewn teulu ffermio.

Gweithiodd y busnes gyda Cyswllt Ffermio i edrych ar y gofynion er mwyn ehangu'r busnes, gan gynnwys:

- Creu refeniw drwy'r cynllun cymhelliad gwres adnewyddadwy (RHI) ar gyfer cynhyrchu ynni ar y fferm
- Datblygu cadwyn gyflenwi fwy cadarn – canfod deunydd crai yn lleol
- Dod o hyd i gwsmeriaid newydd ar gyfer gwahanol wasanaethau yn seilieidig ar danwydd pren
- Sicrhau ardystiad fel tyfwr a chyflenwr

## Buddsoddiad roedd ei angen yng Ngarthmyn Isaf

- Peiriant sglodio symudol
- System Gwres ac Ynni Cyfunol (CHP) wedi'i phweru gan dair tunnell o sglodion pren y dydd
- Mae lloriau sychu yn gwthio aer cynnes drwy'r sglodion pren, gan ddefnyddio egni o system CHP Garthmyn

Er mwyn datblygu cadwyn gyflenwi fwy cadarn rhaid cael dealltwriaeth dda o'r mannau lle mae pren ar gael yn lleol. I gyflawni hyn cafodd nifer o gysylltiadau gwahanol eu creu ac ymchwiliwyd i opsiynau, gan gynnwys;

- Ystadau preifat
- Rheolwyr ac asiantau coetiroedd
- Ffermydd lleol
- Gwaith rheoli coetiroedd sy'n eiddo i'r busnes ei hun
- Coetiroedd preifat eraill
- Busnesau coedyddiaeth lleol
- Coedwigwyr/asiantau/ymgynghorwyr
- Contractwyr pren



Ar ôl ymchwilio, gwelwyd bod pren 'gwyrdd' yn adnodd fwy addas a hyblyg ar gyfer y gwaith ac mae'n fwy hyblyg. Mae'n hawdd ei drin ac yn rhatach i gael gafael arno a gan fod cyfleusterau sychu gwych bellach ar fferm Garthmyn Isaf, gellir cyrraedd y lefel lleithder cywir o fewn oriau. Mae hyn wedi golygu bod modd cynhyrchu amryw o gynhyrchion sy'n ateb gofynion penodol cwsmeriaid.

## Canlyniadau'r prosiect

Cynhyrchu sglodion pren ar lefel lleithder **15%** i'w defnyddio ym moeleri Garthmyn i gynhyrchu ynni, gwerthu **30kW** i'r Grid Cenedlaethol fesul awr

Cyflenwad parod o bren ar gyfer y busnes ynghyd â galw'r farchnad am sglodion pren

Prynu'n lleol i leihau costau cludiant

Gwaith ar gyfer holl aelodau'r teulu

Dibynnu llai ar gynhyrchu da byw fel ffrwd incwm

Gwelwyd ei fod yn fanteisiol hefyd i ennill achrediad gyda chynllun sicrwydd ansawdd. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y pren yn cael ei gynhyrchu i safonau penodol ac yn brawf o ansawdd y cynnyrch. Y canlyniad yw cwsmeriaid mwy hyderus a chynnydd mewn gwerthiant.

## Beth sydd ei angen i redeg busnes tanwydd pren yn llwyddiannus?

- Arbenigedd perianyddol a sgiliau gweithredu peiriannau
- Cyflenwad cyson o ddeunydd crai
- Gweithio tuag at ennill a chynnal achrediad
- Cynhyrchu pren o ansawdd uchel ar gyfer marchnadoedd cynaliadwy
- Cadw at yr holl ganllawiau iechyd a diogelwch a sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant cywir

# Ymgorfforri amaethgoedwigaeth mewn busnesau da byw



Ystyr amaethgoedwigaeth yw tyfu coed a chnydau amaethyddol neu arddwriaethol ar yr un darn o dir. Y nod yw ennill incwm o goed a chnydau sy'n tyfu wrth ymyl ei gilydd gan warchod a chadw adnoddau naturiol ar yr un pryd. Mae amaethgoedwigaeth yn wahanol i goedwigaeth ac amaethyddiaeth draddodiadol gan ei bod yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng y planhigion sy'n tyfu yn hytrach nag ar bob cnwd yn unigol. Mae diddordeb cynyddol mewn ymgorffori'r systemau hyn mewn busnesau da byw oherwydd y gall anifeiliaid hefyd gael budd o'r amodau amgylcheddol a ddarperir gan y coed.

## Manteision

- Mae coed yn cynnig cysgod ac amddiffyniad rhag y gwynt, gan leihau straen oherwydd gwres ac oerfel i dda byw
- Gellir gwella perfformiad da byw a lleihau nifer y marwolaethau
- Mae'n creu buddion amgylcheddol ehangach drwy gynnwys rhagor o goed yn y dirwedd
- Gall lefelau cynhyrchiant coed a chnydau porthiant y 'coed-borfeydd' hyn fod yn llawer uwch na phorfeydd neu goedwigoedd sy'n tyfu ar eu pen eu hunain

## Anfanteision

- Gall amddiffyn coed rhag da byw fod yn ddrud
- Gall difrod achosi i goed dyfu'n gam gan ostwng gwerth economaidd y pren. Gellir goresgyn hyn drwy waith tocio cywirol neu ddefnyddio coed maeth
- Bydd coed a glaswellt neu gnydau eraill yn cystadlu am adnoddau fel goleuni a maetholion. Fodd bynnag, mae buddion cysylltiedig rhyngdorri coed â chnydau eraill yn gorbwyso hyn yn gyffredinol

Mewn systemau coed-borfeydd bydd coed yn cael eu cyflwyno'n fwriadol i system gynhyrchu cnydau porthiant lle mae anifeiliaid yn pori hefyd. Porfa parhaol yw'r system borthiant fel arfer, ond gellir tyfu gwellt neu gnydau silwair hefyd. Mae'r dewis o goeden yn amrywio o rywogaethau pren gwerthfawr i rai sy'n cynhyrchu cnau neu ffrwythau.



Gweithiodd Canolfan Ymchwil Henfaes, ger Bangor, gyda Cyswllt Ffermio i arddangos a chodi ymwybyddiaeth am amaethgoedwigaeth. Plannwyd cnydau porthiant ymhlith y coed mewn ardal amaethgoedwigaeth sefydledig. Cafodd amrywiaeth o gnydau porthiant, yn cynnwys maip sofl a chêl, yn ogystal â chymysgedd o laswelltir, eu plannu i ddangos y potensial i wella cynhyrchiant drwy fabwysiadu'r systemau hyn.

## Argymhellion yn sgil y prosiect


- Tocio coed masarn a gwern yn rheolaidd i adael digon o oleuni i mewn o dan y canopi
- Hau rhesi o gnydau toriad fel cêl croesryw, maip sofl neu gymysgedd o'r ddau
- Dadansoddi ansawdd y porthiant i sicrhau bod gofynion yr anifeiliaid yn cael eu bodloni
- Dadansoddi cynhyrchiant a chyfansoddiad y glaswellt
- Cofnodi'r cynnydd mewn pwysau byw dyddiol wyn i werthuso cynhyrchiant anifeiliaid
- Plannu coed mewn clystyrau o 400 o goesynnau fesul ha, gan gynnwys:
    - Rhywogaethau gwerth uchel sy'n tyfu'n araf, fel derwen mês di-goes
    - Rhywogaethau sy'n tyfu'n gyflym ac sydd angen llawer o oleuni, fel bedw arian
    - Ceisio sicrhau bod dwysedd terfynol y cnwd aeddfed yn 50 o goesynnau fesul ha
    - Mae cyflwyno amaethgoedwigaeth i fusnes yn cynnig cyfleoedd i storio carbon a gwella cymwysterau amgylcheddol y fferm

# Ychwanegu gwerth at goetiroedd fferm



Mae gan lawer o ffermydd goetiroedd sydd ddim yn cael eu defnyddio'n llawn, ond drwy eu rheoli'n ofalus gallai'r rhain gynnig ffrwd incwm ychwanegol i'r busnes.

Cynhaliodd safle ffocws Fferm Cilwrgi, ger Pen-y-bont ar Ogwr, ddigwyddiad i ddangos sut gall rheoli coetiroedd wella busnes y fferm.




Mae'r enghraifft hon yn dangos gwerth posibl rhai mathau o gynnyrch pren. Nododd Cilwrgi y math o gynhyrchion y gallent eu cynhyrchu o'r adnoddau pren ar eu fferm.

## Pynciau a drafodwyd yn y digwyddiad

- Lleihau llygredd tryledol a llif dros y tir gyda choed a gwrychoedd
- Darparu lloches i dda byw er mwyn gwella lles a pherfformiad
- Gwella bioddiogelwch anifeiliaid gyda gwrychoedd cadarn
- Lleihau erydiad pridd yn sgil y gwynt a dŵr drwy osod lleiniau cysgodi strategol
- Ffrydiau refeniw o'r pren

Cafodd pawb a ddaeth i'r digwyddiad eu cyfeirio hefyd at y ddeddfwriaeth yn ymwneud â thrwyddedau cwympo coed yn ogystal â'u cyfrifoldebau o ran Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd. Cafodd cyfleoedd ariannu eu hamlinellu hefyd gan gynnwys mynediad at gynlluniau rheoli coetiroedd, Creu Coetir Glastir ac Adfer Coetir Glastir.



## Hyfywedd coetiroedd conwydd bach

Roedd gan Fferm Skirrid, sy'n rhan o safle arddangos Great Tre Rhew, ger y Fenni, goetir conwydd bach a oedd yn nodweddiadol o lawer o ardaloedd heb eu rheoli sy'n bodoli ar ffermydd yng Nghymru. Fe wnaeth y prosiect ystyried a fyddai'n bosibl cwympo a chasglu'r coed yn effeithlon a beth fyddai gwerth y pren.

safle **0.65 Ha**

Torrwyd **450 $m^3$** o byrwydd Sitka i gynhyrchu **1,000** o byst ffensio - gwerth **£1,500**

Torrwyd rhywfaint o'r coed derw i gynhyrchu trawstiau, siliau a distiau i drwsio hen felin seidr ar y safle - gwerth **£1,500**

Cafodd coed llarwydd eu torri a'u defnyddio ar gyfer **$25m^2$** o estyll lloriau - gwerth **£1,000**

Dangosodd y prosiect y potensial ar gyfer yr ardaloedd bach hyn a gafodd eu plannu'n wreiddiol fel lleiniau cysgodol neu er mwyn cynhyrchu pren. Roedd y pren yn adnodd gwerthfawr i'r fferm; fe'i defnyddiwyd ar brosiectau adnewyddu ar y safle a defnyddiwyd y pyst ffensio i drwsio a chynnal ffensys.

# Defnyddio coed i wella cynhyrchiant wyau buarth



Mae darparu gorchudd coed ar gyfer ieir buarth o fudd i les yr adar a'u perfformiad. Gwelwyd bod amgylcheddau coediog yn efelychu'r amodau sy'n annog ymddygiad naturiol y dofednod, fel chwilota am fwyd, crafu a chael bath llwch. Mae systemau dofednod yn gyfoethog o ran maetholion, ond mae peryglon llygredd hefyd yn gysylltiedig. Gall plannu coed helpu i leihau gollwng maetholion mewn systemau dofednod drwy atal ffynonellau allyriadau, rhyng-gipio allyriadau amonia a gronynnau ac arafu dŵr ffo o'r ardaloedd hyn.

Fe wnaeth safle ffocws Gaerfechan, Cerrigydrudion, arallgyfeirio i gynhyrchu wyau buarth gan sefydlu uned yn cynnwys 32,000 o adar. Fe wnaethant gynnal prosiect i archwilio a allai plannu coed yn yr ardaloedd lle'r oedd yr ieir yn crwydro gwella lles a pherfformiad yr adar.

## Amcanion y prosiect

- Ystyried cynllun plannu coed, y dewis o rywogaethau ac amddiffyniad, ar gyfer eu sefydlu gydag adar crwydrol
- Lleihau unrhyw broblemau fel cywasgiad a gorlwytho maetholion
- Nodi budd a gwerth coed i iechyd a lles unedau dofednod
- Archwilio'r buddion economaidd y gall sefydlu gorchudd coed ei gynnig i unedau dofednod

Gan ddefnyddio data gwaelodlin bresennol y fferm, roedd yn bosibl cymharu sut gwnaeth ymddygiad yr adar newid o ganlyniad i gael coed yn yr ardal grwydrol. Aseswyd iechyd a lles yr adar hefyd. Defnyddiwyd sawl rhywogaeth o goed ac fe gafodd y coed eu monitro wrth iddynt sefydlu i bennu beth yw'r maint gorau o goeden i'w phlannu. Datblygwyd cynllun rheoli deng mlynedd i sicrhau trefniadau rheoli priodol ar gyfer yr adnodd coed newydd ar y fferm.

Oherwydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â thyfu coed, mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar ddulliau sefydlu. Rhagwelir y bydd cyflwyno coed yn arwain at leihau achosion o bigo plu. Mae gwell lefelau o gysgod a lloches yn annog adar i grwydro ymhellach o'r siediau. Mae'r cynnydd hwn yn eu gweithgarwch yn lleihau ymddygiadau annormal fel pigo plu, gan wella iechyd a lles yn gyffredinol. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at fuddion fel costau milfeddygol is ac yn cynyddu cynhyrchiant wyau.

## Argymhellion y prosiect

- Y coed sydd agosaf at y siediau dofednod yw'r rhai mwyaf anodd eu sefydlu, ond y rhain yw'r pwysicaf gan eu bod yn annog ieir i grwydro, yn darparu sgrinio ac yn amsugno amonia
- Mae'n rhaid teneuo coed ar ôl i'r canopïau ddechrau cau
- Dylid plannu rhywogaethau brodorol sy'n addas i'r pridd a'r amodau hinsawdd leol
- Dylid dewis rhywogaethau sy'n tyfu'n gyflym i'w plannu ger y sied e.e. poplys gwyn neu lwyd (rhan o deulu'r helygen), neu rywogaethau croesryw, wrth ymyl rhywogaethau brodorol
- 15 mlynedd yn ddiweddarach: os plannwyd poplys bydd yn rhaid eu teneuo wrth i'r coed sefydlu er mwyn gadael i'r rhywogaethau brodorol ddod yn fwy amlwg



# Bygythiad clefydau i goed yng Nghymru



Gall coed brodorol a choed a gyflwynwyd i Gymru fod yn agored iawn i amrywiaeth eang o blâu a phathogenau. Gall achosion o blâu a chlefydau sy'n effeithio ar nifer mawr o goed gael effeithiau sylweddol ar ein tirweddau, cynefinoedd naturiol ac economi.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae achosion o *Phytophthora ramorum* a chlefyd (Chalara) coed ynn wedi codi proffil clefydau coed yng Nghymru. Cadarnhawyd bod dirywiad derw llym yn broblem mewn coed derw yng Nghymru hefyd.

Gallwch chwarae eich rhan i helpu Cymru i leihau effeithiau negyddol y clefydau coed hyn.

Bod yn ymwybodol o'r bygythiadau presennol a phosibl i goed

Gwybod sut i adnabod plâu a chlefydau a sut i adrodd amdanynt

Cymryd rhagofalon bioddiogelwch syml wrth ymweld â chefn gwlad i osgoi lledaenu plâu a chlefydau

**Sut gallaf helpu i atal y lledaeniad?**
Cyrraedd safleoedd coetiroedd yn gwisgo esgidiau glân, teiars cerbydau wedi'u diheintio ac arfer bioddiogelwch da

**Byddwch yn ymwybodol o glefydau**
Cysylltwch â TREE alert i roi gwybod am unrhyw achosion o glefyd coed
treealert@forestresearch.gov.uk

# Adnabod clefydau a'u harwyddocâd yng Nghymru



| Clefyd | Symptomau | Sut mae'n lledaenu | Y rhagolygon a'r risg i Gymru |
|---|---|---|---|
| Phytophthora ramorum<br>*Ffwng sy'n heintio ac yn lladd coed llarwydd. Mae hefyd yn effeithio ar nifer o goed, llwyni a phlanhigion eraill.* | • Blaen blagur wedi gwywo, nodwyddau du<br>• Blagur heintus yn colli eu nodwyddau<br>• Cancr sy'n diferu resin ar y boncyff uchaf a'r canghennau | • Amodau llaith a gwlyb<br>• Tarth, niwl a dyfrffyrdd<br>• Gall sborau sy'n heintio gael eu lledaenu gan anifeiliaid, esgidiau a pheiriannau | Mae 9,000 ha o goed llarwydd wedi cael eu heintio yng Nghymru |
| Clefyd (Chalara) coed ynn<br>*Clefyd ffwngaidd difrifol sy'n lladd coed ynn ar draws Gogledd Ewrop* | • Mae briwiau tywyll - yn aml yn hir, tenau a ac mewn siâp diemwnt - yn ymddangos ar y boncyff wrth fôn blagur ochrol marw<br>• Mae blaenau blagur yn troi'n ddu ac yn gwywo<br>• Dail marw wedi duo – gall edrych yn debyg i ddifrod rhew<br>• Mae gwythiennau a bôn y dail, sydd fel arfer yn lliw golau, yn troi'n frown<br>• Mae pennau a blagur ochrol glasbrennau wedi marw | • Yn cael ei ledaenu gan sborau o ffrwythgyrff y ffwng a gynhyrchir ar ddail ynn sydd wedi cwympo | Coed y tu allan i goetiroedd (parciau, gerddi, gwrychoedd) sy'n wynebu'r perygl mwyaf<br><br>Yn effeithio ar goed ynn sydd newydd eu plannu yn ogystal â choed hŷn |

Yn 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '*Phytophthora ramorum*: Strategaeth ar gyfer Cymru' sy'n canolbwyntio ar reoli'r clefyd mewn coed llarwydd mewn coetiroedd ar draws Cymru. Mae'r strategaeth yn dod â'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf am y clefyd ynghyd ac yn amlinellu opsiynau rheoli gwahanol i ddelio ag ef.

**Cyswllt Ffermio**

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

08456 000 813

farmingconnect@menterabusnes.co.uk

Facebook.com/CyswlltFfermio

@CyswlltFfermio